PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

www.aber.ac.uk/cy/news

# NEWYDDION Aber

*Aberystwyth… un o'r llefydd gorau yn y byd i fod yn fyfyriwr*

RHIFYN 12
Ebrill 2013

The Queen's Anniversary Prizes For Higher and Further Education 2009




3 Campau Aber/ Bangor 2013

5 Hwb i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg


7 Newydd o gynhyrchu graffin


10 BioBlitz ar y Campws

12 Adeiladu cysylltiadau gyda phrif gyflogwyr











## Cynlluniau y preswylfeydd myfyrwyr

Mae cynlluniau ar gyfer preswylfeydd newydd fydd yn cael eu hadeiladu ar Fferm Penglais wedi cael eu gwneud yn gyhoeddus ac mai Balfour Beatty yw'r cynigydd ffafredig ar gyfer datblygiad y preswylfeydd newydd sy'n cynrychioli buddsoddiad cyfalaf o tua £45m.

Wedi'u lleoli yn union y tu ôl i bentref myfyrwyr arobryn Jane Morgan ac o fewn pellter cerdded i'r Brifysgol a champws Penglais a Llanbadarn, bydd y preswylfeydd newydd yn darparu llety ar gyfer 1000 o fyfyrwyr ac yn cynnwys 100 o fflatiau stiwdio.

Wedi'i ysbrydoli gan dirwedd a phensaernïaeth y Gymru wledig, mae'r datblygiad newydd yn cynnwys cyfres o adeiladau tri llawr gyda fflatiau i chwech neu wyth o fyfyrwyr mewn llety hunan-arlwyo. Bydd ystafelloedd gwely sylweddol, en-suite yn cynnig digon o le i fyfyrwyr fyw ac astudio gyda mynediad gwifrau caled a difwifr i'r rhyngrwyd.

Disgwylir i'r gwaith adeiladu ddechrau yr haf hwn a gobeithir y bydd y myfyrwyr cyntaf yn gallu symud i mewn erbyn dechrau'r flwyddyn academaidd 2014.

Ymhlith y cyntaf i ymsefydlu fydd myfyrwyr sy'n byw ym Mhantycelyn. Adeiladwyd Neuadd Pantycelyn yn wreiddiol ym 1951, ac fe'i agorwyd hi fel neuadd ar gyfer myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg yn 1974. Mae hi wedi denu cenedlaethau o bobl ifanc sy'n dymuno astudio a byw trwy gyfrwng y Gymraeg.

Ac mae'r myfyrwyr wedi bod yn rhan o'r broses o helpu'r Brifysgol i sicrhau bod y preswylfeydd newydd yn adlewyrchu dyheadau a blaenoriaethau UMCA (Undeb y Myfyrwyr Cymraeg) ac Undeb y Myfyrwyr fel bod y datblygiad cyfan yn gweithio i wella profiad y myfyrwyr.

*Parhau ar dudalen 2*

**Arolwg Darllenwyr NEWYDDION Aber:** www.survey.bris.ac.uk/aber/newyddionaber

*Cwblhewch yr arolwg i fod â chyfle i ennill £ 25 credyd ar eich Cerdyn Aber*

Cyhoeddir NEWYDDION Aber gan **Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus**, Prifysgol Aberystwyth.

Ffon 01970 622946.
E-bost: cyfathrebu@aber.ac.uk

Bydd y rhifyn nesaf o NEWYDDION Aber ar gael ym mis **Mai 2013.**

Dyddiad cau ar gyfer y rhifyn nesaf yw **Dydd Llun 8 fed Ebrill.**

NEWYDDION



Hufen iâ ar y prom, 1973. Credit: Christopher West

# Rhywbeth am 1973?

1973. Blwyddyn agor Canolfan Fasnach y Byd a Thŷ Opera Sydney; marwolaeth Pablo Picasso; Sgandal Watergate; Rhyfel Yom Kippur rhwng yr Arabiaid a'r Israeliaid, a chwyddiant yn effeithio ar fywydau miliynau o bobl.

Yma yn y DU £9,942 oedd pris tŷ ar gyfartaledd ac roedd petrol yn costio 35 ceiniog y galwyn. Daeth TAW i rym, a daeth y DU yn rhan o'r Gymuned Economaidd Ewropeaidd. Agorodd y Frenhines Elisabeth Bont fodern Llundain yn swyddogol, a ffrwydrodd bomiau'r IRA yn Whitehall a'r Old Bailey.


Yn y simenâu, roedd pobl yn heidio i weld *The Exorcist, Last Tango in Paris* a *Live and Let Die*, ac ar y teledu ym Mhrydain roedd *Old Grey Whistle Test* ac *Are You Being Served?* Darlledwyd pennod beilot y gyfres gomedi sydd wedi para hiraf ar y teledu erioed, *Last of the Summer Wine* – byddai'n para am 31 o gyfresi, cyn dod i ben yn 2010.

Yn agosach at gartref, caeodd Ysgol Ramadeg Ardwyn ac Ysgol Uwchradd Fodern Dinas, ac agorodd Ysgolion Cyfun Penglais a Phenweddig. Chwaraeodd Led Zeppelin o flaen torf enfawr yn Neuadd y Brenin, Aberystwyth ar 16 Ionawr – £1 oedd pris y tocynnau. Ym mis Awst, bu llifogydd difrifol yn Aberystwyth a'r cyffiniau, a disgynnodd tua'r un faint o law ag a gafwyd yn y llifogydd ym mis Mehefin 2012.

Yn yr un flwyddyn, bu sawl datblygiad pwysig yma ym Mhrifysgol Aberystwyth. Sefydlodd y Brifysgol – Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth, bryd hynny, dan arweiniad Syr Goronwy Daniel – ei Hadran Ddrama, yr unig adran o'i bath yng Nghymru. Y nod ar y cychwyn oedd cynnig cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg a hyfforddi darpar actorion, dramodwyr, cyfarwyddwyr a chynhyrchwyr i'r theatr a'r diwydiant darlledu yng Nghymru. O'r dyddiau cynnar hynny yn 1973, bellach yr Adran Theatr, Ffilm a Theledu yma yn Aberystwyth yw un o'r adrannau mwyaf a'r pwysicaf o'i bath, ac mae'n ymfalchïo ei bod yn meithrin ac yn datblygu ysgolheigion ac arweinwyr y diwydiant at y dyfodol.

Agorodd y Brifysgol hefyd ei Hadran Gelf. Dyma'r unig adran o'i bath ym Mhrifysgol Cymru. Er bod celf yn cael ei ddysgu yn Aberystwyth ers 1917, ac er bod y Brifysgol yn cynnig graddau Anrhydedd Gyfun mewn Celf ers 1965, yn 1973 y daeth yr adran yn adran ar ei phen ei hun.

Yn yr un flwyddyn, codwyd Canolfan y Celfyddydau, a'r uchelgais oedd gwasanaethu nid dim ond y Coleg, ond hefyd gymuned canolbarth a gorllewin Cymru. Dyma Ganolfan Gelfyddydau fwyaf Cymru bellach a chaiff ei hadnabod fel 'eicon cenedlaethol i'r celfyddydau'. Mae ganddi raglen artistig sydd wedi ennill gwobrau a'r rhaglen celfyddydau cymunedol fwyaf yng Nghymru.




Yn 1973 hefyd y cafwyd caniatâd i sefydlu Neuadd Breswyl Gymraeg. Agorodd Neuadd Pantycelyn, a adeiladwyd ddwy flynedd ar hugain ynghynt, flwyddyn wedi hynny, ac yn y deugain mlynedd ers hynny mae wedi denu cenedlaethau o bobl ifanc sydd am astudio a byw drwy'r Gymraeg. Sefydlwyd UMCA, Undeb Myfyrwyr Cymraeg Aberystwyth, yn yr un flwyddyn, a hynny ar adeg dymhestlog i fudiad y Gymraeg.

Rhoddir sylw i rai o'r datblygiadau yma ym Mhrifysgol Aberystwyth yn 1973 yn NEWYDDION Aber drwy gydol y flwyddyn. Yn y rhifyn hwn, ceir erthygl ar dudalen 4 sy'n pwyso a mesur cyfraniad Canolfan y Celfyddydau, Aberystwyth dros ddeugain mlynedd.

*Cynlluniau y preswylfeydd myfyrwyr - Continued from page 1*

Bydd lle canolog hefyd yn darparu ystod o swyddogaethau cymdeithasol, dysgu a byw gan gynnwys golchdai, storfa beiciau, gofod cymunedol ar gyfer clybiau a chymdeithasau, a chyfleusterau cyfrifiadurol. Bydd hefyd cae chwaraeon glaswellt newydd.

Mae'r cyhoeddiad am gynigydd ffafredig ar gyfer y prosiect yn benllanw proses a gychwynnwyd nôl ym mis Mawrth 2011. Drwy broses a elwir yn Ddeialog Gystadleuol derbyniodd y Brifysgol lefel uchel iawn o dendrau gan ddatblygwyr, cyn, yn y pendraw, ddyfarnu statws cynigydd ffafredig i Balfour Beatty.

Bydd Balfour Beatty nawr yn cyflwyno cynlluniau manwl i'r awdurdod cynllunio i ryddhau'r "materion a gadwyd yn ôl". Rhoddwyd caniatâd cynllunio amlinellol i'r prosiect ym mis Mawrth 2012.

Unwaith y bydd yn weithredol, bydd y Brifysgol yn darparu gwasanaethau myfyrwyr yn y preswylfeydd newydd, tra bydd Balfour Beatty yn gyfrifol am gynnal a chadw'r adeiladau.

Mae rhagor o luniau o'r preswylfeydd newydd i fyfyrwyr i'w gweld ar dudalen 11 o'r rhifyn hwn o NEWYDDION Aber.

## COLOFN YR IS-GANGHELLOR



Yn swyddfa'r Is-Ganghellor ar hyn o bryd, credwch neu beidio, rydym wrthi'n ceisio rhoi darnau jig-so'r Graddio at ei gilydd – sawl myfyriwr a gwestai rydym yn eu disgwyl o bob adran, a pha Gymrodyr i'w gwahodd ar ba ddiwrnod. Rwy'n teimlo fel golygydd cylchgrawn sydd wrthi'n braf yn ysgrifennu darnau am ddillad nofio a ffrogiau haf tra bo pawb y tu allan i'r ffenestr yn rhynnu yn eu sgarffiau a'u menig a'u dillad gaeaf. Ond dyma baratoi'r ffordd ar gyfer colofn yn NEWYDDIONAber sy'n rhoi sylw i'r myfyrwyr, ac rwyf am ganolbwyntio ar un digwyddiad diweddar, ac un arall sydd ar y gweill y mis nesaf.

Yn gyntaf, roedd yn dda iawn gennyf gael cyfle i fwynhau cystadleuaeth y Campau rhwng Aber a Bangor ganol mis Chwefror. Yn ystod cystadleuaeth y Campau daw'r berthynas agos a chyfeillgar sydd rhyngom a'n cyfeillion yn y gogledd i ben am ddiwrnod, a cheir cystadlu brwd mewn dros 30 o gystadlaethau. Pleser oedd croesawu cydweithwyr o Fangor ac aelodau o'r ddwy Weithrediaeth Chwaraeon mewn cinio anffurfiol ar y nos Wener, a mawr yw fy niolch i bawb yn Undeb y Myfyrwyr am eu gwaith trefnu ac am fy nhywys i weld amryw o chwaraeon, yn eu plith rai nad oeddwn erioed wedi clywed amdanynt (Octopush, er enghraifft – a gyda llaw, ni enillodd o 12 i 0). Pleser o'r mwyaf hefyd oedd croesawu'r tlws yn ôl, ar ôl diwrnod o sbort rhagorol a buddugoliaeth haeddiannol i Aber – Bangor 14, Aberystwyth 18. Dyma chweched gystadleuaeth y Campau, ac mae nifer y cystadlaethau'n tyfu bob blwyddyn. Hyd yma, mae'r tîm cartref wedi ennill bob tro, felly dyma her i Aber droi'r llanw a chadw gafael ar y tlws yn 2014! Gyda llaw, ar noson cystadleuaeth y Campau (a minnau'n dal i aros am gadarnhad o'r canlyniad terfynol), roedd yn bleser gan Rob a minnau gael bod yn westeion wrth i aelodau hen a newydd y Cantorion Madrigal Elisabethaidd ddathlu pen-blwydd cymdeithas hynaf y Brifysgol yn 63 blwydd oed. Prin iawn yr wyf wedi clywed canu ar ôl cinio o safon mor uchel (ac yn sicr nid ar ôl cystadleuaeth chwaraeon), ac rwy'n hynod falch fod y Madrigaliaid wedi cytuno i ganu i ni eto adeg y Graddio eleni.

Trof yn awr o'n llwyddiant ar y meysydd chwarae at agweddau eraill ar brofiad y myfyrwyr. Rwy'n edrych ymlaen yn fawr iawn at yr ail Wobrau Dysgu dan Arweiniad Myfyrwyr, a gynhelir ar 30 Ebrill. Trefnir y digwyddiad gan Undeb y Myfyrwyr, ac mae'n gyfle i fyfyrwyr bleidleisio dros gydweithwyr sydd wedi eu dysgu mewn modd a fu'n ysbrydoliaeth iddynt, sydd bellach yn un o nodau allweddol ein Cynllun Allweddol. Ond yn ogystal â hynny, mae cyfle i ddewis Adran y Flwyddyn, ac yn 2012, pan gynhaliwyd y Gwobrau am y tro cyntaf, bu cystadleuaeth fwy brwd am y wobr honno na chystadleuaeth y Campau hyd yn oed. Yr Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol enillodd y wobr. I mi, un o'r pethau gorau am y Gwobrau y llynedd oedd y gydnabyddiaeth a roddwyd i gyfraniad hollbwysig ein staff cymorth i brofiad y myfyrwyr. David Price a Phil Jones, Porthorion yr Ysgol Gelf, oedd yr enillwyr balch a theilwng – ac mae eu gwobr i'w gweld mewn lle amlwg yng nghyntedd yr Ysgol, lle cefais y fraint o'i dangos yn ddiweddar i ymwelwyr o Lysgenhadaeth Tsieina yn Llundain! Pleidleisiwch da chi, fyfyrwyr, a dewch yn llu, aelodau'r staff, i ddathliad a fydd yn un cofiadwy, rwy'n siŵr, o ragoriaeth ym maes darparu a chynorthwyo dysgu, sydd mor bwysig i'n llwyddiannau o ran profiad y myfyrwyr. Fe wela i chi yno!

**Yr Athro April McMahon,** Is-Ganghellor

## Campau Aber/Bangor 2013



*Roedd Aberystwyth yn arwain gyda'r nofio, gan guro Bangor 129-98.*
*Credit: Tomos Nolan (2013)*



*Tlws y campau.*
*Credit: Joseph Landers (2013)*

NEWYDDION

# Canolfan y Celfyddydau'n dathlu ei phen-blwydd yn 40

Dechreuodd Canolfan y Celfyddydau, Aberystwyth yn y 1970au pan adeiladwyd yr adnodd gan Goleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth ar y pryd gyda'r nod nid dim ond o wasanaethu'r Coleg, ond hefyd gymuned canolbarth a gorllewin Cymru.

Agorodd y Neuadd Fawr yn 1970 a'r Theatr yn yr hydref 1972 a ganwyd Canolfan y Celfyddydau, Aberystwyth. Agorwyd y ganolfan yn swyddogol gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Mr Peter Thomas, ddydd Mercher 18 Ebrill 1973.

Yn y blynyddoedd cynnar, bu sawl actor sydd bellach yn enwog yn troedio'r llwyfan yma, yn eu plith Peter Postlethwaite a Julie Walters. Perfformiodd David Bowie yma yn 1972 ac ymddangosodd Michael Ball am y tro cyntaf mewn sioe gerdd yng nghynhyrchiad yr haf 1984, *Godspell*.

O'r cychwyn cyntaf, bu gan Ganolfan y Celfyddydau bolisi rhaglennu cymysg ac amrywiol, yn annog ac yn cefnogi grwpiau lleol ac ensembles y Brifysgol ynghyd â chwmnïau ac artistiaid proffesiynol blaenllaw ac iddynt enw rhyngwladol.

Bellach, Canolfan y Celfyddydau, Aberystwyth yw canolfan gelfyddydau fwyaf Cymru a chaiff ei hadnabod fel 'eicon cenedlaethol i'r celfyddydau'. Mae ganddi raglen artistig sydd wedi ennill gwobrau a'r rhaglen celfyddydau cymunedol fwyaf yng Nghymru, ac yma y caiff llawer o bobl ifanc eu profiad cyntaf o'r celfyddydau. Yn anad dim, mae'r Ganolfan yn ganolbwynt i'r Brifysgol drwy gydol y dydd, gyda'r caffi yng nghanol yr adeilad. Y gymysgedd honno o staff a myfyrwyr ochr yn ochr â'r cyhoedd neu blant ysgol lleol sy'n gwneud Canolfan y Celfyddydau mor arbennig.

O Awst 2013 bydd Canolfan y Celfyddydau yn dod yn rhan o 'Athrofa Llenyddiaeth, Ieithoedd a'r Celfyddydau Creadigol' sydd hefyd yn cyfuno Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu; yr Ysgol Gelf; Adran y Gymraeg; Adran Ieithoedd Ewropeaidd a'r Ganolfan Gerdd.





*Canolfan Gelfyddydau Aberystwyth – ddoe ac heddiw*

Yng Nghanolfan y Celfyddydau, sy'n rhan mor annatod o'r Brifysgol, cawn fanteisio ar y cyfle i ymwneud a'r gymuned leol a rhanbarthol ac mae hefyd yn cyfrannu at y sgoriau uchel a roddir yn gyson i Aberystwyth am fodlonrwydd myfyrwyr. Wedi ei lleoli yng nghanol campws y Brifysgol, mae Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth yn un o ganolfannau perfformio a chelfyddydau gweledol mwyaf y DG ac yn croesawu mwy na 750,000 o ymwelwyr y flwyddyn.

Edrychwn ymlaen at y 40 mlynedd nesaf!

*Oes gennych chi ffotograffau neu hanesion am flynyddoedd cynnar Canolfan y Celfyddydau yr hoffech eu rhannu â ni?*

*Os felly, cysylltwch â Louise ar* lla@aber.ac.uk *neu ffoniwch 01970 622889*

# BioBlits Campws Penglais

Weithiau gallwn ni gyd fod yn rhy brysur wrth ein gwaith i sylwi ar y lle anhygoel yr ydyn ni'n gweithio ynddo. Wel, mae dydd Sadwrn 11 Mai yn gyfle i stopio a chymryd cipolwg agosach ar ba mor arbennig yw ein campws go iawn. Dros 24 awr llawn o ganol nos i ganol nos bydd 'BioBlits' yng Nghampws Penglais ac fe wahoddir pawb i gymryd rhan.

Felly beth yw BioBlits o'r Campws? Ymgais wyllt yw hyn i restru'r holl rywogaethau sy'n byw ar y campws ochr yn ochr â'r staff a'r myfyrwyr.

Mae BioBlits wedi cael ei gynnal mewn nifer o leoedd ledled y byd, ond mae BioBlits Penglais ychydig yn fwy uchelgeisiol. Dros y 24 awr bydd rhaglen lawn o weithgareddau i chi gymryd rhan ynddyn nhw. Maglu gwyfynod ganol nos, canfod ystlumod yn y cyfnos, gwrando ar yr adar lleol yn canu gyda'r wawr, neu drochi pwll a llysieua ar amseroedd mwy gwaraidd.

Byddwn yn adnabod a chofnodi cymaint o rywogaethau o blanhigion ac anifeiliaid â phosibl; o ficrobau i bobl, o lygod i mousse. Ydyn, rydyn ni hefyd yn cynnwys y bwyd ar y campws. Ydych chi'n gwybod sawl gwahanol fath o rywogaethau mae'n ei gymryd i wneud mousse siocled? Dewch i gymryd rhan ym MioBlits Penglais i chi gael gweld.

Rydyn ni'n chwilio am wirfoddolwyr i helpu ag amrywiaeth eang o weithgareddau ar y, sy'n amrywio o helpu i gasglu a chymharu data i drefnu aelodau o'r cyhoedd (felly nid oes angen i chi fod yn arbenigwr ar adnabod unrhyw organebau i gymryd rhan). Edrychwch ar y wefan i weld sut y gallwch chi gymryd rhan - www.aber.ac.uk/cy/ibers/events/2013/bioblitz/.

Darllenwch fwy am fioamrywiaeth ar y campws yn erthygl Dr John Warren are dudalen 10.

NEWYDDION

# Cymynrodd cyn-löwr

Mae'r cyn-löwr a'r athro hanes, Rhys Lewis, a fu farw ym mis Gorffennaf 2012 yn 108 mlwydd oed, wedi gadael £10,000 i Lyfrgell Hugh Owen.

Graddiodd Mr Lewis o Brifysgol Aberystwyth yn 1931 ar ôl astudio Hanes a Hanes Economaidd, ac aeth ymlaen i gwblhau tystysgrif athro, hefyd yn Aberystwyth, yn y flwyddyn ganlynol.

Bydd y gymynrodd yn cael ei defnyddio i ychwanegu at y casgliad helaeth o lyfrau yn adran hanes llyfrgell y Brifysgol ac yn cael ei chydnabod ym mhob cyfrol sydd yn cael ei hychwanegu.

Cafodd cymynrodd Mr Lewis ei chyflwyno i'r Brifysgol gan ei fab, John, sydd hefyd yn raddedig o Aberystwyth (BA Economeg a Daearyddiaeth 1963), a'i bartner Ms Brenda Dobney, ddydd Mercher 20 Chwefror.

Mewn derbyniad yn Llyfrgell Hugh Owen y Brifysgol, dywedodd John Lewis; "Bu Aberystwyth yn ffurfiannol yn addysg fy nhad. Mwynheuodd ei amser yma yn fawr iawn, er mae'n rhaid ei bod yn anodd iawn iddo yn economaidd. Teimlai ei fod am adael rhywbeth parhaol ac mai'r ffordd orau o wneud hyn oedd cynorthwyo llyfrgell y Brifysgol."

Gallwch ddarllen mwy am fywyd Rhys Lewis yn:

www.aber.ac.uk/cy/news/archive/2013/02/title-127232-cy.html



John Lewis (dde), mab Rhys Lewis, yn dal un o'r llyfrau a brynwyd gan gymunrodd ei dad, gyda Dr Martyn Powell, Pennaeth yr Adran Hanes a Hanes Cymru.

# Hwb i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg

Mae Prifysgol wedi sicrhau pedair darlithyddiaeth newydd dan nawdd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i ddarparu cyfleoedd newydd ar gyfer myfyrwyr i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r pedair swydd newydd ym meysydd Astudiaethau Gwybodaeth, Cymraeg Proffesiynol, Peirianneg Meddalwedd a'r Gyfraith yn ychwanegol at y ddeg darlithyddiaeth sydd eisoes wedi'u dyfarnu i'r Brifysgol ers 2011. Bydd deiliaid y swyddi newydd yn gyfrifol am addysgu a datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg o fewn eu meysydd pwnc perthnasol.

Gwnaed y cyhoeddiad dydd Gwener 8 Mawrth, yn ystod lansiad gofod addysgu newydd sydd wedi cael ei ariannu gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yng nghwmni Elin Jones, AC a Dr Ioan Matthews, Prif Weithredwr y Coleg Cymraeg.

Bydd yr ystafell ddysgu aml-bwrpas yn adeilad IBERS ar gampws Penglais yn adnodd defnyddiol ar gyfer myfyrwyr ac yn eu galluogi i gymryd rhan mewn seminarau a darlithoedd mewn sefydliadau gwahanol, diolch i'r dechnoleg e-ddysgu diweddaraf .

Mae Prifysgol Aberystwyth yn rhan o rwydwaith cenedlaethol o brifysgolion sy'n datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg gyda chefnogaeth cynllun cyllid cenedlaethol y Coleg Cymraeg. Mae'r Cynllun Staffio Academaidd yn darparu cyllid i sefydliadau addysg uwch yng Nghymru i gyflogi staff academaidd ac i feithrin darlithwyr o safon byd-eang sy'n adnabyddus am arloesi a rhagoriaeth mewn addysgu ac ymchwil.

Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn darparu £1 miliwn yn flynyddol am gyfnod o bum mlynedd yn y lle cyntaf i gefnogi swyddi academaidd cyfrwng Cymraeg. Rhagwelir y bydd y cynllun yn darparu dros 100 o swyddi academaidd Cymraeg Cymraeg erbyn y flwyddyn 2015-16 academaidd.

# Dadlau ar y llwyfan rhyngwladol

Cafodd aelodau o Gymdeithas Ddadlau'r Brifysgol gryn lwyddiant ym Mhencampwriaethau Dadlau Prifysgolion y Byd a gynhaliwyd yn ddiweddar yn yr Universität Technische ym Merlin.

Yno bu Roberto Sarrionandia (3edd flwyddyn Cyfrifiadureg) ac Ollie Newlan (2il flwyddyn Gwleidyddiaeth Ryngwladol) yn dadlau yn erbyn timau o rai o sefydliadau mwyaf adnabyddus y byd academaidd gan drechu'r LSE a Harvard a'u tebyg wrth iddynt gyrraedd yr 16eg olaf.

Y trydydd aelod o Gymdeithas Ddadlau Aberystwyth i fynychu'r gystadleuaeth oedd Samuel Vincent (Hanes 3edd flwyddyn), a fu'n un o feirniad y gystadleuaeth.

Wedi naw diwrnod o drafod a dadlau dwys, roedd y ddeuawd o Aberystwyth yn yr 11eg safle, ac wedi llwyddo i fynd ymhellach yn y gystadleuaeth nac enwau mawr megis Yale, Princeton, Caergrawnt B, Durham, Coleg Prifysgol Cork, Stanford, Bryste, a Phrifysgol McGill.

Ac, o'r 387 o dimau a ddechreuodd y gystadleuaeth ar y 27ain o Ragfyr, Prifysgol Monash o Awstralia oedd yn fuddugol.

Mae Roberto ac Ollie yn awr yn edrych ymlaen at gynrychioli Cymru yn Rownd Derfynnol Mace Rhyngwladol John Smith sydd yn cael ei chynnal yng Nghaeredin ganol mis Ebrill.

Ac ar ôl hynny, maent yn edrych ymlaen at groesawu timau o bob cwr o'r Deyrnas Gyfunol i Aberystwyth ar benwythnos olaf mis Ebrill ar gyfer Cystadleuaeth Agored Bailey Gifford Aberystwyth. Yr Hen Goleg fydd y lleoliad ar gyfer y dadleuon yn ystod y dydd, a chynhelir y rownd derfynol gyda'r hwyr mewn bwyty ar ben Craig Glais.

Ceir mwy o wybodaeth am y Gymdeithas Ddadlau a Chystadleuaeth Agored Aberystwyth ar wefan y gymdeithas aberdebating.org/.



Dadleuwyr Prifysgol Aberystwyth Roberto Sarrionandia (chwith) ac Ollie Newman

# Ymchwil Aber



## Llwyddiant! Mae'n dda gennyf ddweud bod y Swyddfa Ymchwil wedi cael dau lwyddiant yn ddiweddar.

HR EXCELLENCE IN RESEARCH

Yn gyntaf, mae Vitae, sefydliad y DU sy'n hyrwyddo ymchwil mewn sefydliadau addysg uwch, wedi rhoi gwybod i ni fod y Brifysgol ymhlith 12 o sefydliadau yn y DU sydd wedi llwyddo i gadw eu Gwobr Rhagoriaeth Adnoddau Dynol mewn Ymchwil gan y Comisiwn Ewropeaidd. Mae'r Wobr yn tystio i ymrwymiad y Brifysgol i wella amodau gwaith a chyfleoedd datblygu gyrfa i staff ymchwil, a fydd yn ei dro'n gwella maint, ansawdd ac effaith ymchwil er budd cymdeithas ac economi'r DU. Gallwch weld y cynllun dwy flynedd yn www.aber.ac.uk/cy/research/aber-research/researcher-development/, ac er bod gennym lawer i'w wneud, rydym yn edrych ymlaen yn eiddgar at adolygu ein darpariaeth datblygu ymchwilwyr ac at lansio rhaglen newydd i ymchwilwyr ar bob lefel, ar y cyd â'r Ganolfan Datblygu Staff ac Ymarfer Academaidd a Phrifysgol Bangor.

Daw'r ail lwyddiant yn sgil ymweliad Sicrwydd Cynghorau Ymchwil y DU ym mis Ionawr. Rydym wedi bod yn gweithio'n galed i gyflwyno prosesau a systemau newydd ar gyfer Cyllid Ymchwil ac mae hynny wedi talu ar ei ganfed, a ninnau wedi symud o sicrwydd rhannol i sicrwydd boddhaol, a chyda'r systemau newydd ar waith rydym ar ein ffordd at sicrwydd sylweddol. Ein gobaith yw y byddwch, a chithau'n Brif Archwilydd, yn Gyd-archwilydd neu'n weinyddydd prosiect, wedi sylwi ar welliant yn y gwasanaeth o safbwynt cefnogaeth ar ôl gwobrwyo gan y Swyddfa Ymchwil. Os nad ydych eisoes wedi bod i un o'r sesiynau hyfforddi amser cinio 'Syniadau ar gyfer Rheoli eich Grant Ymchwil', rwy'n argymell eich bod yn gwneud hynny. Mae hyn yn orfodol i ddeiliaid grantiau Cynghorau Ymchwil y DU, yn rhai hen a newydd – mae'r dyddiadau ar wefan y Ganolfan Datblygu Staff ac Ymarfer Academaidd (www.aber.ac.uk/cy/cdsap/).

Cawsom rywfaint o adborth gan Sicrwydd Cynghorau Ymchwil y DU. Ceir crynodeb isod o'r prosesau allweddol y mae'n rhaid eu dilyn er mwyn sicrhau ein bod yn cael sicrwydd llawn y tro nesaf.




**Gwneud Cais am Grant** – cyn gwobrwyo (cyswllt allweddol ymchwil@aber.ac.uk neu eich Swyddog Datblygu Ymchwil)

Rhaid i bob cais am gyllid (Cynghorau Ymchwil, cyllidwyr Ewropeaidd, TSB a chyllidwyr eraill) gadw at broses y Brifysgol ar gyfer gwneud cais am grantiau. Dyma'r pwyntiau allweddol:

- I gael y gwasanaeth gorau, gofynnir i chi gysylltu â'ch Swyddog Datblygu Ymchwil o leiaf 3 wythnos cyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno (5 wythnos ar gyfer cyllid yr UE).
- Yn IBERS rhaid i chi gysylltu â Helen Lloyd (hll@aber.ac.uk) 5 wythnos cyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno i gael cymeradwyaeth i fwrw ymlaen â'r cais am gyllid.
- Rhaid i'r Swyddfa Cyllid Ymchwil gymeradwyo pob cyllid.
- Rhaid sicrhau adolygiad gan gydweithwyr.
- Rhaid i'ch Pennaeth Adran lenwi a llofnodi'r ffurflen 'Binc' (y Cyfarwyddwr Ymchwil yn IBERS).
- Rhaid cyflwyno'r uchod i'r Swyddfa Ymchwil 5 diwrnod gwaith cyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno, neu ni fydd modd gwarantu y caiff y cais ei gyflwyno.
- Mae'n bosib na fydd y Brifysgol yn derbyn grantiau na chymeradwywyd y cyllid ar eu cyfer ac na chawsant gefnogaeth Pennaeth yr Adran.

Rhaid i fathau eraill o geisiadau (tendr, ymgynghoriaeth, ymchwil contract, KTPau) gael eu costio a'u cymeradwyo gan CCS a'r Swyddfa Cyllid Ymchwil a rhaid i'ch Pennaeth Adran (y Cyfarwyddwr Ymchwil yn IBERS) lofnodi ffurflen berthnasol.

**Ar Ôl Gwobrwyo** (cyswllt allweddol rfo@aber.ac.uk)

- Gofynnir i chi gysylltu â'ch cyllidwr ymchwil drwy'r Swyddfa Cyllid Ymchwil.
- Os byddwch yn cysylltu â'ch cyllidwr yn sgil gohebiaeth uniongyrchol gofynnir i chi gopïo'r Swyddfa Cyllid Ymchwil i mewn i'ch ateb.
- Rhowch wybod i ni os bydd unrhyw oedi â'ch prosiect.
- Rhowch wybod i ni am unrhyw newidiadau arfaethedig i'r prosiect – rhown wybod i'r cyllidwr os bydd angen gwneud hynny.
- Copïwch ni i mewn i unrhyw ohebiaeth ag Adnoddau Dynol ynghylch staff eich prosiect.
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn cadw at ofynion caffael y Brifysgol www.aber.ac.uk/cy/finance-office/procurement/
- Ewch i'r sesiwn amser cinio 'Syniadau ar gyfer Rheoli eich Grant Ymchwil' (ewch i wefan y ganolfan Datblygu Staff ac Ymarfer Academaidd)

Er bod y rhestr hon yn ymddangos yn hir, rydym yma i'ch helpu cyn ac ar ôl i chi gael eich grantiau ymchwil, felly cysylltwch â ni – fe allwn eich helpu!

ymchwil@aber.ac.uk

**Gary Reed,** Pennaeth y Swyddfa Ymchwil

# Gwyddonwyr IMAPS yn datblygu dull newydd o gynhyrchu graffin

Mae ffisegwyr defnyddiau o'r Sefydliad Mathemateg a Ffiseg (IMAPS) wedi darganfod dull newydd o gynhyrchu graffin, defnydd ag eiddo optegol a thrydanol anhygoel.



*Yr Athro Andrew Evans*

Mae graffin yn haenen o atomau carbon wedi'u bondio gyda'i gilydd mewn ffordd debyg i graffit. Fodd bynnag, mae ganddo ddefnyddiau a phriodweddau gwahanol iawn a gwell.

Mae arbrofion wedi dangos bod graffin yn un o'r defnyddiau cryfaf sy'n hysbys ac yn un o'r arweinyddion gorau o wres a thrydan. Mae hefyd bron yn dryloyw i olau gweladwy.

Dywedodd yr Athro Andrew Evans, Cyfarwyddwr IMAPS ac arweinydd y grwp ymchwil:

"Mae graffin ganwaith yn gryfach na defnyddiau adeiladu presennol ac yn gyflymach ac yn ysgafnach na deunyddiau electronig megis silicon. Mae'n synhwyrydd nwy mwy sensitif nag unrhyw beth arall a geir ar hyn o bryd, ac yn medru synhwyro moleciwlau unigol a gallai ddisodli gwydr dargludo mewn arddangosiadau a chelloedd solar.

"Gellir cymharu darganfyddiad a defnydd graffin yn yr 21ain ganrif â defnydd o blastig a silicon yn yr 20fed. Mae'n ddefnydd amlddefnydd y gellir ei ddefnyddio mewn nifer amrywiol o ffyrdd a fydd yn creu dyfeisiadau cyflymach, teneuach, mwy hyblyg a rhatach.

"Mae'r darganfyddiad diweddaraf a wnaed yma yn IMAPS yn adlewyrchu'r uchelgais sydd gennym fel canolfan ryngwladol o ragoriaeth a bydd yn atgyfnerthu enw da'r Brifysgol fel canolfan ymchwil sylweddol byd-eang."

Yr her fwyaf yw darganfod ffyrdd economaidd o gynhyrchu graffin yn ddiwydiannol ac o ansawdd uchel, er mwyn ei brosesu i mewn i ddyfeisiau bach, ysgafn ac effeithlon.

Mewn papur yn y cylchgrawn *CARBON*, mae'r ymchwilydd Simon Cooil, yr Athro Andrew Evans a'u cydweithwyr yn disgrifio sut mae offer a ddatblygwyd ym Mhrifysgol Aberystwyth wedi eu galluogi i dyfu taflenni perffaith o graffin drwy reoli cyfnewid carbon o wyneb diemwnt a chreu crisial o graffin perffaith.

## Cysylltiadau cymorth ymchwil

| Enw | Swydd | Ebost | Estyniad |
|---|---|---|---|
| **Swyddfa Ymchwil** | | | |
| Gary Reed | Pennaeth y Swyddfa Ymchwil | gar | 1789 |
| Hannah Payne | Swyddog FfRhY Monitro Ymchwil | hep | 8490 |
| Dafydd Roberts | **Swyddog Datblygu Ymchwil** - Cyfadran y Celfyddydau a'r Dyniaethau | dir | 8787 |
| Jenny Deaville | **Swyddog Datblygu Ymchwil** - Cyfadran y Gwyddorau Cymdeithasol | jfj | 1616 |
| Joanne Walker | **Swyddog Datblygu Ymchwil** - Cyfadran y Gwyddorau | jnw | 2947 |
| Huw Merfyn Hughes | Rheolwr Datblygu Ewropeaidd | hmh | 8742 |
| Anne Howells | Swyddog Datblygu Ewropeaidd | nsh | 4127 |
| **IBERS** | | | |
| Tim Williams | Rheolwr Datblygu Cronfa Ymchwil IBERS | tdw | 8754 |
| Gwag | Rheolwr Datblygu Cronfa Ymchwil IBERS | | |
| **Cyllid Ymchwil** | | | |
| Peter Botwood | Pwynt Cyswllt Canolog | peb16 | 8485 |

Ceir Cymorth Ymchwil pellach drwy'r Pecyn Cymorth Ymchwil a'r Bas-data Cyfleoedd Cyllido Ymchwil (PIVOT) yn www.aber.ac.uk/cy/research/

## Cefnogi ymchwilwyr rhyngwladol

Yn ddiweddar, llwyddodd Uned Ewropeaidd y Swyddfa Ymchwil yn ei chais i fod yn Fan Cyswllt Lleol i fenter Euraxess y Comisiwn Ewropeaidd, rhwydwaith gwasanaethau sy'n cynnwys 35 o wledydd yn Ewrop.

Nod Euraxess yw cael gwared ar y rhwystrau i symud gwybodaeth yn rhydd o fewn Ewrop, cryfhau gallu ymchwilwyr i symud ar draws ffiniau, a chynnig strwythurau gyrfa gwell i ymchwilwyr.

Yn ôl Huw Merfyn Hughes, y Rheolwr Datblygu Ewropeaidd, "Mae'n beth hollol arferol, a hyd yn oed yn ddymunol, bellach i ymchwilwyr dreulio rhan o'u gyrfa mewn gwlad dramor a gall hynny fod yn brofiad cyffrous a gwerth chweil, sy'n ehangu gorwelion proffesiynol a phersonol fel ei gilydd.

"Mae symud o un lle i'r llall yn elfen hanfodol o rai o gynlluniau grantiau ymchwil yr UE ac mae Prifysgol Aberystwyth, fel yr adroddwyd yn rhifyn Tachwedd 2012 NEWYDDION Aber, yn dod yn fwyfwy llwyddiannus o ran denu arian o Frwsel. Er hynny, nid yw bob amser yn hawdd codi pac a gadael man cyfarwydd a gall symud i wlad arall weithiau fod yn brofiad digon anodd.

"Mae cael statws Man Cyswllt Lleol o fewn Euraxess yn golygu y gallwn ni yn y Swyddfa Ymchwil, ynghyd â chydweithwyr yn yr adran Adnoddau Dynol a'r Swyddfa Ryngwladol, roi gwell cefnogaeth i academyddion rhyngwladol sy'n dod atom yma. Gallwn ei gwneud yn haws iddynt symud i Gymru a'r DU, fel bod modd iddynt, yn hytrach na phoeni am y pethau ymarferol, ymlacio, mwynhau'r profiad a chanolbwyntio ar eu hymchwil. Mae statws man Cyswllt Lleol hefyd yn ategu'r camau a gymerwyd yn ddiweddar yn y Swyddfa Ymchwil i ennill Gwobr Rhagoriaeth Adnoddau Dynol mewn Ymchwil."

I gael gwybod mwy ewch i:

www.euraxess.org.uk



# Cyfnewid



Yn y golofn olygyddol hon i *Cyfnewid* hoffwn ganolbwyntio ar Gynllun Strategol newydd y Brifysgol. Mae gan y Gwasanaethau Masnacheiddio ac Ymgynghori rôl allweddol o ran cyflawni'r targedau, yn eu plith:

- Creu rhagor o bartneriaethau â byd diwydiant – ychwanegu 4 partneriaeth arwyddocaol at ein portffolio erbyn 2017
- Cefnogi 20 yn rhagor o drwyddedau i gwmnïau sy'n bodoli eisoes a/neu gwmnïau deillio allan/deillio i mewn erbyn 2017
- Cynyddu ein hincwm Cyfnewid Gwybodaeth 5% bob blwyddyn
- Sefydlu o leiaf 20 yn rhagor o brosiectau Datblygu Proffesiynol Parhaus (DPP), gan ddarparu sgiliau a arweinir gan gyflogwyr i'r rhanbarth a thu hwnt erbyn 2017

Wrth i adrannau ddatblygu eu strategaethau ymchwil ac effaith (gweler darn Gary Reed ar y dudalen Ymchwil i gael gwybod mwy), mae'n rhaid cadw'r targedau hyn ym mlaen ein meddyliau. Mae'n cymryd amser i effaith drwy Gyfnewid Gwybodaeth ddwyn ffrwyth ac mae angen i ni gynllunio nawr er mwyn llwyddo yn 2017. Er enghraifft, os ydych wrthi'n ysgrifennu cais am grant Cyngor Ymchwil, ydych chi wedi ystyried cynnwys rhai canlyniadau Cyfnewid Gwybodaeth a gofyn am gyllid i dalu am ddatblygu meddalwedd, cyngor asiant patentau, teithio i gwrdd â darpar bartneriaid ym myd diwydiant, neu ddeunyddiau addysgu o ansawdd uchel i ddarparu cwrs DPP? Yn ôl gwefan Cynghorau Ymchwil y DU (RCUK), gall costau cymwys yn eich adran Llwybrau at Effaith gynnwys cyflogi staff arbenigol ym maes trosglwyddo gwybodaeth, taliadau ymgynghori, costau cyhoeddi a marchnata, gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd, digwyddiadau ymgysylltu, gweithgareddau rhwydweithio, cyfnewid pobl, ac yn y blaen. Mae cyfle i chi gynnwys hyn wrth gynllunio eich grantiau; er mwyn cyflawni ein Cynllun Strategol, mae angen i Brifysgol Aberystwyth fanteisio'n llawn ar hyn.

**Liz Flint,** Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Masnacheiddio ac Ymgynghori

## Hanes Halen Môn

Bellach yn ei bumed flwyddyn, mae Rhwydwaith Busnes Prifysgol Aberystwyth, sy'n cael ei redeg gan y Gwasanaethau Masnacheiddio ac Ymgynghori, yn parhau â'r traddodiad o wahodd i'r Brifysgol siaradwyr diddorol a difyr sy'n ysbrydoliaeth i eraill, gydag ymweliad yn yr hydref gan David Lea-Wilson, rheolwr gyfarwyddwr cwmni Halen Môn.



*Y Dirprwy Is-Ganghellor yr Athro Martin Jones gyda David Lea-Wilson o Halen Môn*

Rhoddodd David, ynghyd â'i wraig a'i bartner busnes, Alison, gyflwyniad difyr a diddorol ar hanes sefydlu Halen Môn, gan nodi nifer o egwyddorion busnes pwysig hefyd.

Drwy gydol ein gyflwyniad, pwysleisiodd David y geiriau 'Newid' ac 'Arloesi', a'r newid a'r arloesi hwnnw a arweiniodd at sefydlu Halen Môn, brand bwyd o'r ansawdd gorau sy'n hynod lwyddiannus. Yr arloesi hwnnw sy'n gyrru'r cwmni hyd heddiw, ac mae bellach yn cynnwys ei gynnyrch, ymhlith pethau eraill, mewn creision ar ben ucha'r farchnad, nwyddau siocled a hyd yn oed "Dŵr Mwg Derw" Heston Blumenthal, a roddwyd i'r gynulleidfa ei weld a'i arogli!

Yn y cyflwyniad nesaf, ym mis Ebrill, cawn glywed gan un o uwch reolwyr amgylcheddol cwmni Tesco ccc.

## Cydweithio i fasnacheiddio eiddo deallusol

Mae'n dda gan y Tîm Trosglwyddo Technoleg gyhoeddi ei fod wedi cael cyllid gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru i gydweithio â Grŵp Dydd Gŵyl Dewi sy'n gweithio i gryfhau gallu'r grŵp o ran masnacheiddio eiddo deallusol.

Dan arweiniad Prifysgol Caerdydd, bydd prifysgolion Grŵp Dydd Gŵyl Dewi (Caerdydd, Aberystwyth, Bangor, Morgannwg ac Abertawe) yn cydweithio i greu rhwydwaith effeithiol i hwyluso a gwneud y gorau o drosglwyddo technoleg rhwng prifysgolion a busnesau Cymru i helpu i feithrin diwylliant o arloesi yng Nghymru, sy'n un o amcanion Llywodraeth Cymru.

Bydd y prosiect masnacheiddio eiddo deallusol hwn yn canolbwyntio ar y cychwyn ar feithrin rhagor o gysylltiad rhwng y Tîm Trosglwyddo Technoleg a'r staff ymchwil academaidd. Dros y misoedd nesaf bwriad y Tîm Trosglwyddo Technoleg yw cysylltu â'r holl staff academaidd a chanddynt ddiddordebau ymchwil mewn meysydd sy'n fasnachol berthnasol er mwyn trefnu cyfweliad cychwynnol. Diben y cyfweliad hwn yw ystyried sut y gallai gweithgarwch ymchwil cyfredol arwain at greu asedau eiddo deallusol a chael gwybod sut y gall y tîm helpu i fanteisio'n fasnachol ar hynny drwy drwyddedu.

### Newyddion am Gwmni Deillio

Mae Codiki, cwmni datblygu apiau a gafodd arian o gronfa fentergarwch Prifysgol Aberystwyth, wedi lansio'i ap masnachol cyntaf, *ShoreCatch*, i bysgotwyr môr ar arfordir Cymru. Mae'r ap Android ac iOS yn darparu gwybodaeth am y llanw, rhagolygon y tywydd, mapiau marc, canllawiau rhywogaethau pysgod a gwybodaeth am abwyd a rigiau. I gael gwybod mwy ewch i: www.aber.ac.uk/cy/news/archive/2013/01/title-125637-cy.html

# Menter Mercher



Mae'n argoeli y bydd y gwanwyn a'r haf eleni'n brysurach nag erioed i Rwydwaith Menter Crisalis. Cynllun yw hwn sy'n cael ei redeg gan y Gwasanaethau Masnacheiddio ac Ymgynghori a'i ariannu gan Ganolfan Fenter Canolbarth Cymru. Mae Crisalis yn trefnu ac yn rhedeg cyflwyniadau, gweithdai a digwyddiadau ymarferol i fyfyrwyr, graddedigion a staff a chanddynt ddiddordeb mewn cychwyn menter neu fusnes.

Bu'r Rhwydwaith yn gweithredu ers deng mlynedd, ac mae'n rhoi gwybod i fyfyrwyr am gyfleoedd hunangyflogaeth a chyflogaeth ac yn rhoi cymorth ymarferol i fyfyrwyr, graddedigion a staff sydd am sefydlu mentrau newydd, boed hynny'n llawn amser, yn rhan amser, yn fenter gwneud elw neu'n fenter gymunedol.

Ymhlith digwyddiadau rhaglen newydd sbon "Menter Mercher" mae cyflwyniadau wythnosol ar bynciau megis cyllid busnes, sgiliau gwerthu a dylunio a defnyddir pobl o gwmnïau lleol llwyddiannus yn esiampl i ysbrydoli pobl â'u hanesion am gychwyn busnes.

Mae digwyddiadau Menter Mercher, a gynhelir ar gampws Penglais, yn RHAD AC AM DDIM ac yn agored i bawb. Bydd y digwyddiadau hyn hefyd yn arwain at brif ddigwyddiad Rhwydwaith Menter Crisalis ym mis Mehefin eleni, sef "Wythnos Cychwyn Busnes"… rhaglen wythnos ddwys sy'n cynnig y wybodaeth hanfodol sydd ei hangen i droi syniad da'n fusnes gwych.

Mae Crisalis hefyd yn gweithio law yn llaw ag Antur Teifi a chwmni ymgynghorol PERA i gynnig cyngor busnes a chymorth ymgynghori un-i-un i fyfyrwyr, graddedigion a staff.

www.aber.ac.uk/crisalis

# Menter un o'n graddedigion



Mae Ben King, a enillodd gystadleuaeth syniadau myfyrwyr Crisalis ac a gymerodd ran yn 'Wythnos Cychwyn Busnes' y Brifysgol yn 2011, wedi dechrau ei gwmni cynhyrchu cyfryngol ei hunan. Mae mwy nag un o gynyrchiadau'r cwmni eisoes wedi eu darlledu ar deledu'r DU ac mae'r cwmni newydd lansio gwasanaeth gwefannau newydd.

Mae'r cwmni, "Surfacerush", hefyd wedi gwneud ffilm a brynwyd yn ddiweddar gan Vertigo Films ac a enillodd wobr BIFA ac enwebiad Raindance.

Yn ôl Ben, yr Wythnos Cychwyn Busnes "oedd yr wythnos bwysicaf a'r fwyaf buddiol i mi hyd yma ar fy siwrnai fel entrepreneur".

Cynhelir yr Wythnos Cychwyn Busnes nesaf ym mis Mehefin i fyfyrwyr, graddedigion a staff. Ewch i www.aber.ac.uk/crisalis i gael gwybod mwy.

# Gwobrau Menter

Cafodd Prifysgol Aberystwyth lwyddiant ysgubol yng Ngwobrau Menter Rhyngwladol Cymdeithas Masnach Ceffylau Prydain yn ffair fasnach BETA yn yr NEC, Birmingham, o 16 hyd 18 Chwefror 2013.

horseRATION




Enillodd horseRATION, yr ap maeth ceffylau a ddyfeisiwyd gan Catherine Hale, myfyrwraig PhD yn IBERS, un o'r wyth o Wobrau Menter sy'n cydnabod 'cynhyrchion newydd a gwirioneddol arloesol' yn y sector.

Dyfarnwyd y gwobrau gan banel o arbenigwyr annibynnol ar geffylau o wahanol sectorau, yn eu plith y cynllunydd cyrsiau Ian Stark, Nicola Wilson, sy'n marchogaeth mewn cystadlaethau, y milfeddyg Tom Beech, Jackie Potts, gwas stabl i William Fox-Pitt a chyn Was Stabl y Flwyddyn, a Natasha Baker, a enillodd fedal aur am farchogaeth yn y Gemau Paralympaidd.

Wrth sôn am wobr horseRATION, dywedodd Dr Rhian Hayward, Trosglwyddo Technoleg, "Rwyf wrth fy modd fod y diwydiant ceffylau wedi cydnabod bod ein ap yn adnodd gwerthfawr. Mae enw da a bri rhyngwladol i'r wobr hon ac mae'n cadarnhau i ni ddewis yn dda pan ddaeth horseRATION yn fuddugol yn ein Her Apiau Symudol. "

Dywedodd y beirniaid am horseRATION "Dyma adnodd heb ei ail i bob perchennog sy'n chwilio am ragor o gyfarwyddyd ac fe ddylai arbed arian iddynt yn y pen draw."

Lansiwyd fersiwn wedi'i ddiweddaru o horseRATION (fersiwn 1.4) ar iTunes ar 1 Mawrth 2013.

# Staff newydd



Ymunodd Rebecca Rock â'r Tîm Trosglwyddo Technoleg ym mis Ionawr ac mae'n darparu cymorth gweinyddol i Brosiect Masnacheiddio Eiddo Deallusol y Grŵp Dydd Gŵyl Dewi. Ymhlith ei dyletswyddau, bydd Rebecca'n cysylltu â staff academaidd dros y misoedd nesaf i drefnu cyfarfodydd â'r Tîm Trosglwyddo Technoleg.

Bu Rebecca'n gweithio yn amryw o adrannau'r Brifysgol dros y 7 mlynedd diwethaf, ac mae bellach yn rhannu ei hamser rhwng y Gwasanaethau Masnacheiddio ac Ymgynghori a'r Adran Hanes a Hanes Cymru.

**GWASANAETHAU MASNACHEIDDIO AC YMGYNGHORI**

Am wybodaeth neu gefnogaeth yn ymwneud â chyfleoedd cyfnewid gwybodaeth cysylltwch â ni, neu dewch i'n swyddfeydd ar lawr cyntaf y Ganolfan Ddelweddu.

Gwasanaeth Ymholiadau Canolog GMY: ccservices@aber.ac.uk - est 2385 - www.aber.ac.uk/ccs



ERTHYGL NODWEDD

# BioBlitz ar y Campws

## golwg wahanol ar fywyd

**gan Dr John Warren**

Nid syniad newydd mo BioBlitz, sef ceisio cofnodi pob rhywogaeth y gellir dod o hyd iddi mewn un lleoliad ar un diwrnod penodol. Yn wir, mae llawer iawn o brifysgolion eraill ledled y byd wedi cynnal BioBlitz ar eu campysau cyn i ni wneud hynny. Felly pam ddylem ni neilltuo'r cyfan o 11 Mai i wneud rhywbeth mor ddibwynt? Dyw BioBlitz ar y Campws ddim hyd yn oed yn fenter wyddonol o ddifrif; fe ddywed unrhyw dacsonomydd gwerth ei halen wrthych y gall gymryd cryn dipyn yn fwy na 24 awr i gadarnhau beth yn union yw llawer o dacsonau cymhleth. Mae Campws Penglais yn rhy fawr o lawer i chwilio'n drylwyr ym mhob twll a chornel a chael hyd i bob rhywogaeth sy'n llechu yno. Ac wrth reswm, bydd y rhywogaethau a fydd yn byw ar y campws ar 11 Mai'n wahanol i'r rhai hynny a fydd yno ar 12 Mai, heb sôn am y rhai a fydd yno yng nghanol y gaeaf.

Diben cynnal BioBlitz ar y Campws yw rhoi cyfle i'r cyhoedd ymwneud â byd natur. Nid dim ond agor llygaid plant ysgol i ryfeddodau bwystfilod bach, ond rhoi cyfle hefyd i bob un ohonom gymryd seibiant i werthfawrogi rhyfeddod y lle rydym yn byw ac yn gweithio ynddo. Sawl un ohonom sydd wedi sylwi ar y clwstwr o'r tegeirian gwyllt (caldrist lydanddail) sy'n tyfu yn y llain ganol ger derbynfa'r campws wrth i ni yrru heibio bob bore? Meddyliwch pa ryfeddodau eraill sy'n eich disgwyl dim ond i chi aros a chwiliota, dan arweiniad byddin o arbenigwyr a fydd ar gael i'ch tywys drwy'r BioBlitz.

Cynigir diwrnod cyfan o weithgareddau a chewch fynd i rwydo gwyfynod ganol nos, gwrando am lwyd y berth ar doriad gwawr, chwilio am ystlumod cyn brecwast a chanfod cen dros ginio. Iawn, dyna ddigon – mae'r rhaglen lawn i'w gweld ar wefan BioBlitz y Campws www.aber.ac.uk/cy/ibers/events/2013/bioblitz/



Mae'r digwyddiad hwn yn gyfle heb ei ail i gynnwys y gymuned leol ehangach; mae gennym arbenigwyr gwirfoddol o'r Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt leol, yr RSPB, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Cymdeithas Fotaneg Aberystwyth, Cymdeithas Arddwriaeth Sir Aberteifi a llawer mwy. Bydd BioBlitz Penglais yn cyd-ddigwydd â noson y Ddawns Fai, sy'n dangos yn union pa mor amrywiol y gall bywyd gyda'r nos fod ar y campws. Gwahoddir y rhai hynny a fydd yn cyrraedd fore trannoeth ar gyfer Diwrnod Agored y Brifysgol i ymuno yn y gweithgareddau hefyd a gweld drostynt eu hunain lle mor fendigedig o fywiog yw'r campws.

Mae rhaglen y gweithgareddau yr ydym wedi ei threfnu ar gyfer BioBlitz Campws Penglais ychydig yn fwy uchelgeisiol na dim a wnaethpwyd o'r blaen. Fel y dywedwyd eisoes, mae dim ond rhestru'r adar, y planhigion, y mamaliaid bach a'r anifeiliaid di-asgwrn-cefn ar y campws yn hen beth erbyn hyn. Ar 11 Mai rydym am i bawb gymryd rhan a'n rhyfeddu drwy ddweud wrthym pa blanhigion sydd gennych mewn potiau yn eich swyddfeydd, a bydd myfyrwyr IBERS yn dweud wrthym pa ficrobau sy'n llechu o'n cwmpas. Yn ogystal â chael gwybod sawl rhywogaeth o lygoden y gwair sydd yng nghoed Penglais, cawn wybod hefyd sawl paraseit sy'n byw arnynt. Mae Caffi Canolfan y Celfyddydau'n ymuno yn yr hwyl drwy roi BioBlitz i'w fwydlenni


Credit: Alice Earp

am y dydd. Dyma labelu bwyd ar ei orau. Felly, yn ogystal â chofnodi sawl rhywogaeth a welsoch yn ystod y dydd, gallwch hefyd fwynhau dod i wybod sawl rhywogaeth wahanol y gallwch ei bwyta mewn un salad!

Gwerth mawr BioBlitz Penglais yw dangos 'beth wnaeth bioamrywiaeth i ni erioed?' Mae BioBlitz bioamrywiaeth yn fwy na dim ond cystadlu i lunio rhestr o bryfetach ac adar. Yr hyn sy'n bwysig am y digwyddiad yw cyfleu gwerth cudd bioamrywiaeth. Ceir esiampl wych a thryloyw a hyn yn y BioBlitz ar fwydlenni Canolfan y Celfyddydau. Byddai'r byd yn lle llai diddorol o lawer pe baem yn bwyta llai o fioamrywiaeth amser cinio. Ac wrth reswm, byddai toriad y wawr yn llai hudolus o lawer pe na bai ond un math o aderyn yn ei groesawu. Yn y blynyddoedd diwethaf, seriwyd gwerth bioamrywiaeth yng nghysyniad y gwasanaethau ecosystemau. Bellach, rydym yn gweld gwerth mwy na dim ond eu harddwch hynod yn ieir bach yr haf, ond yn gweld gwerth hefyd yn eu gallu i beillio'r ffrwythau yr ydym yn eu bwyta.

Mae cysyniad y gwasanaethau ecosystemau'n ffordd ddefnyddiol o'n helpu i sylweddoli beth yw gwerth rhywogaethau eraill sy'n byw ar y campws gyda ni. Ond mae perygl hefyd yn y ffordd hon o roi gwerth ar fioamrywiaeth a her i'r sawl sy'n cynnal y BioBlitz. Sut allwn ni helpu pobl i werthfawrogi'r rhywogaethau sy'n darparu'r gwasanaethau ecosystemau anffasiynol ac anneniadol? Efallai'n wir fod rhannu'r profiad arbennig o weld clychau'r gog yng nghoed Penglais a dysgu am eu priodweddau iachusol yn helpu i hyrwyddo delwedd Prifysgol Aberystwyth. Ond efallai y byddai'n fwy anodd i'r tîm marchnata werthu'r syniad o flitzio matres myfyriwr. Ond onid oes lle i bryfed gwely yn ein hecosystem nos ninnau? Mae perygl gwirioneddol y byddwn yn gwyngalchu'r ffordd y gwelwn fioamrywiaeth drwy anwybyddu'r rhywogaethau a'r swyddogaethau sy'n gwneud i ni deimlo'n llai cyfforddus. Bydd BioBlitz Penglais yn ateb yr her ac yn croesawu mwy na dim ond yr hyn sy'n bert ac yn hoffus.



NEWYDDION

# Enillydd Gwobr CaisDyfeisio 2013



Sylfaenydd cymuned gymdeithasol ar-lein ar gyfer dysgwyr iaith yw enillydd cyntaf Gwobr CaisDyfeisio, cystadleuaeth i fyfyrwyr y Brifysgol sy'n werth £20,000.

Mae Jake Stainer yn fyfyriwr Marchnata a Sbaeneg yn ei ail flwyddyn, ac ef yw sylfaenydd a Rheolwr Gyfarwyddwr y wefan iaith Papora, www.papora.com.

Nod Papora, sydd yn rhad ac am ddim i'w ddefnyddio, yw dod â dysgwyr a siaradwyr cynhenid at ei gilydd er mwyn cyfnewid ieithoedd. Eisoes mae ganddi 11,000 o ddefnyddwyr o 135 o wledydd yn dysgu mwy na 100 o ieithoedd.

Bwriad Jake yw defnyddio'r wobr o £20,000 i ddatblygu'r safle, ychwanegu nodweddion newydd, cynyddu ei phresenoldeb ar-lein a datblygu cymwysiadau symudol.

Lansiwyd Gwobr CaisDyfeisio ym mis Medi 2012 er mwyn annog entrepreneuriaeth ac ysgogi syniadau newydd ar gyfer cynnyrch neu wasanaethau y gellid eu datblygu yn fusnesau llwyddiannus. Mae'n agored i holl fyfyrwyr y Brifysgol.

Roedd Jake yn un o chwech i gyrraedd y rownd derfynol a chyflwyno eu cynigion busnes i banel o bum beirniad. Y lleill oedd Michael Konieczny (Adran Ieithoedd Ewropeaidd), Marc Diaper (Ysgol Rheolaeth a Busnes) Alex Pitchford (Sefydliad Mathemateg a Ffiseg), Luke Marr (Adran Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol) a Mick McMonagle (IBERS).

# Preswylfeydd newydd myfyrwyr

Cwrt y fferm



Yn cynrychioli buddsoddiad cyfalaf o £ 45m, bydd y neuaddau preswyl newydd a gaiff eu hadeiladu ar Fferm Penglais yn darparu llety ar gyfer 1,000 o fyfyrwyr mewn ystafelloedd gwely sylweddol, en-suite. Disgwylir i'r gwaith adeiladu ddechrau yr haf hwn, gyda'r myfyrwyr cyntaf yn symud fewn ym mis Medi 2014.





Ystafell wely myfyriwr

NEWYDDION

# Adeiladu cysylltiadau gyda phrif gyflogwyr



*Cyfranogwyr cyfweld cyflym Chwith – Dde: Nick Bowell, Enterprise Rent-a-Car, Carolyn Parry, Gwasanaeth Gyrfaoedd Prifysgol Aberystwyth, Maggie Lewis, Dŵr Cymru, Helen Ford, Network Rail, a Darina Davies, Y Gwasanaeth Sifil.*

Mae rhai o brif recriwtwyr graddedigion y Deyrnas Gyfunol wedi bod yn gweithio gyda myfyrwyr o Brifysgol Aberystwyth i'w cynorthwyo i ddatblygu eu technegau cyfweld.

Bu cynrychiolwyr o'r Gwasanaeth Sifil a Network Rail, sy'n ymddangos ar restr 100 uchaf Cyflogwyr Graddedigion y *Times*, ynghyd â Dŵr Cymru ac Enterprise Rent-a-Car mewn sesiwn cyfweld cyflym yn Aberystwyth ar ddydd Iau 8 Mawrth.

Trefnwyd y digwyddiad gan Wasanaeth Gyrfaoedd y Brifysgol ac roedd yn adeiladu ar ddigwyddiad peilot llwyddiannus a drefnwyd gyda Network Rail y llynedd.

Cafodd y myfyrwyr gyfres o gyfweliadau pedair munud gyda'r gwahanol recriwtwyr ac adborth ar eu perfformiad yn ogystal ag awgrymiadau ar sut i wella eu techneg cyfweld.

Ar ddiwedd y sesiwn, treuliodd cyflogwyr amser gyda myfyrwyr unigol a oedd yn eu tyb hwy yn arbennig o addas fel darpar weithwyr gan amlinellu sut i wneud cais llwyddiannus.

Trefnwyd y digwyddiad gan dîm o staff y Gwasanaeth Gyrfaoedd a arweiniwyd gan Carolyn Parry, Dirprwy Gyfarwyddwr Dros Dro Gwasanaeth Gyrfaoedd y Brifysgol. Dywedodd: "Pwrpas hyn oll yw rhoi i'n myfyrwyr y cyfle i ddatblygu eu dealltwriaeth o sgiliau cyflogadwyedd a'r hyn y mae cyflogwyr yn chwilio amdano."

"Mae hefyd yn gyfle pwysig i brif recriwtwyr adnabod talent ac adnabod myfyrwyr unigol ar gyfer eu cyfweld ymhellach, fel a ddigwyddodd gyda nifer o'n myfyrwyr yn dilyn y sesiwn diweddaraf."

Mae'r Gwasanaeth Gyrfaoedd yn awr yn gweithio gyda nifer o gyflogwyr graddedigion uchel eu proffil i ddatblygu digwyddiad dau ddiwrnod i wella eu rhagolygon cyflogaeth myfyrwyr.

"Mae ein strategaeth o adeiladu perthnasau cryf â chyflogwyr drwy'r math hwn o ddigwyddiad yn talu ar ei ganfed wrth i ni weld mwy o fyfyrwyr a graddedigion yn sicrhau cyfleoedd blwyddyn ddiwydiannol a graddedigion gyda'r prif gwmnïau. Mae'r ymateb gan fyfyrwyr a chyflogwyr wedi bod yn gadarnhaol iawn ac rydym yn edrych ymlaen at adeiladu ar y rhain ar gyfer y sesiwn nesaf sydd i fod i ddigwydd yn yr hydref, "ychwanegodd Carolyn.

# Gweddnewid y TUAAU

Yn 2012 gweddnewidiwyd y Dystysgrif Uwchraddedig Addysgu mewn Addysg Uwch (TUAAU).

Gwnaethpwyd gwelliannau a lluniwyd cwrs newydd yn sgil ymgynghori helaeth ar draws y Brifysgol. Cynhaliwyd grwpiau ffocws a chyfarfodydd ymgynghori â staff darlithio, yn rhai newydd a phrofiadol, er mwyn cael gwybod pa nodweddion newydd yr hoffent eu gweld yn y cwrs ar ei newydd wedd. Mae bellach yn cynnwys:

- 'Canllaw ar sut i oroesi' i'r rhai hynny sy'n addysgu am y tro cyntaf;
- Mwy o sylw i addysgu yn y celfyddydau / y gwyddorau / y dyniaethau drwy elfen benodol i bwnc;
- Cydblethu cryfach â'r tîm E-ddysgu a mwy o elfennau o ddysgu cymysg;
- 'Sesiwn dadansoddi anghenion' personol i gynllunio datblygu proffesiynol wedi'i deilwra;
- Hyfforddi a mentora er mwyn datblygu'r unigolyn;
- Hunan-arsylwi ar addysgu gan ddefnyddio technoleg recordio darlithoedd.

Yn y rownd ddyrchafu ddiweddaraf roedd yn dda iawn gennym weld bod nifer helaeth wedi bod drwy'r rhaglen. Mae canran anghymesur o uchel o'r rhai a gymerodd ran yn y gorffennol yn mynd ymlaen i ennill gwobrau am ragoriaeth addysgu a dulliau eraill o nodi enw da ym maes addysgu. Mae hyn oherwydd bod y cwrs yn annog datblygu set o werthoedd addysgu, athroniaeth a geirfa i drafod dulliau a dewisiadau addysgu. Mae hefyd yn creu athrawon mwy arbrofol, creadigol a blaengar.

Caiff rhagoriaeth addysgu ei gwobrwyo'n llawn drwy'r system dyrchafiadau academaidd ac mae *Cynllun Strategol Prifysgol Aberystwyth 2012 – 2017* yn annog y rhan fwyaf o'r staff addysgu i gyrraedd statws Cymrawd gyda'r Academi Addysg Uwch erbyn 2017 a 60% i gwblhau cymhwyster addysgu wedi'i achredu.

Dyma gyfle heb ei ail i feddwl am ddatblygu eich addysgu ymhellach a sicrhau bod eich myfyrwyr yn cael profiad neilltuol. Os hoffech gadw lle ar y cwrs newydd, cysylltwch â thîm y cwrs ar thestaff@aber.ac.uk.

POBL ABER

# Cyfarwyddwyr Athrofeydd Penodiadau

Mae'r canlynol wedi'u penodi i rolau Cyfarwyddwyr Athrofeydd yr Athrofeydd rhyngddisgyblaethol newydd, sy'n elfen fawr o gynllun strategol pum mlynedd y Brifysgol:



### Yr Athro Qiang Shen

Bydd yr Athro Qiang Shen yn bennaeth ar yr Athrofa Mathemateg, Ffiseg a Chyfrifiadureg fydd yn cynnwys Mathemateg a Ffiseg a'r Adran Cyfrifiadureg. Daeth yr Athro Shen i Aberystwyth o Brifysgol Caeredin yn 2004 i ymgymryd â swydd Cadair mewn Cyfrifiadureg. Ar hyn o bryd mae'n Bennaeth yr Adran Gyfrifiadureg.



### Yr Athro Neil Glasser

Bydd yr Athro Neil Glasser yn Gyfarwyddwr ar yr Athrofa Daearyddiaeth, Hanes a Gwleidyddiaeth (ADHG) sy'n cynnwys Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear, Gwleidyddiaeth Ryngwladol a Hanes a Hanes Cymru. Ar hyn o bryd mae'r Athro Glasser, a ymunodd â Phrifysgol Aberystwyth ym 1999, yn Athro Daearyddiaeth Ffisegol yn y Sefydliad Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear ac yn Ddeon y Gyfadran Wyddoniaeth.



### Yr Athro Andrew Henley

Bydd yr Athro Andrew Henley yn bennaeth ar Athrofa Rheolaeth, y Gyfraith a Gwyddor Gwybodaeth fydd yn cynnwys Y Gyfraith a Throseddeg, Ysgol Rheolaeth a Busnes, a'r Adran Astudiaethau Gwybodaeth. Mae'r Athro Henley yn Athro Entrepreneuriaeth a Datblygu Economaidd Rhanbarthol ac yn Gymrawd Ymchwil yn IZA Institute for the Study of Labor, Bonn. Mae'n Gymrawd yr Academi Addysg Uwch.



### Yr Athro Sarah Prescott

Bydd yr Athro Sarah Prescott yn bennaeth ar Athrofa Llenyddiaeth, Ieithoedd a'r Celfyddydau Creadigol fydd yn cynnwys Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu, Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol, yr Ysgol Gelf, Cymraeg, Canolfan y Celfyddydau, Ieithoedd Ewropeaidd a'r Ganolfan Gerdd. Mae'r Athro Prescott, sydd wedi gweithio ym Mhrifysgol Aberystwyth ers 1995, yn Athro Llenyddiaeth Saesneg a Chyfarwyddwr y Ganolfan Ysgrifennu Menywod a Diwylliant Llenyddol.



### Yr Athro Tim Woods

Bydd yr Athro Tim Woods yn bennaeth ar yr Athrofa Addysg, Datblygu Profesiynol a Graddedigion fydd yn cynnwys yr Ysgol Addysg a Dysgu Gydol Oes, y Ganolfan Datblygu Staff ac Ymarfer Academaidd, Canolfan y Graddedigion, a Chanolfan Saesneg Rhyngwladol. Penodwyd yr Athro Woods yn Ddarlithydd mewn Llenyddiaeth Saesneg ac Astudiaethau Americanaidd ym Mhrifysgol Aberystwyth ym 1990. Ers 2007, bu'n Ddeon Cyfadran y Celfyddydau.

Byddant yn ymuno â'r **Athro Wayne Powell**, Cyfarwyddwr *Athrofa y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig* a'r **Athro Kate Bullen**, *Cyfarwyddwr Athrofa y Gwyddorau Dynol*.

Bydd yr Athrofeydd newydd yn gweithredu o 1 Awst.

# Rheolwyr yr Athrofeydd



**Jo Strong:** Rheolwr Athrofa ar gyfer yr *Athrofa Gwyddorau Dynol;*



**Emyr Phillips:** Rheolwr Athrofa ar gyfer yr *Athrofa Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig;*



**Annette Davies:** Rheolwr Athrofa ar gyfer yr *Athrofa Addysg, Datblygu Profesiynol a Graddedigion;*




**Adrian Harvey:** Rheolwr Athrofa ar gyfer yr *Athrofa Rheolaeth, y Gyfraith a Gwyddor Gwybodaeth;*



**Kath Williams:** Rheolwr Athrofa ar gyfer yr *Athrofa Llenyddiaeth, Ieithoedd a'r Celfyddydau Creadigol;*



**Dave Smith:** Rheolwr Athrofa ar gyfer yr *Athrofa Mathemateg, Ffiseg a Chyfrifiadureg;*



**Jackie Sayce:** Rheolwr Athrofa ar gyfer yr *Athrofa Daearyddiaeth, Hanes a Gwleidyddiaeth (ADHG).*

POBL ABER

# Penodiadau


### CYFATHREBU A MATERION CYHOEDDUS



Ymunodd **Elinor Howells** fel Swyddog Cyfathrebu Mewnol ym mis Rhagfyr 2012. Gyda phrofiad ym mhob agwedd ar farchnata a chyfathrebu yn y sector Addysg Uwch, mae gan Elinor ddealltwriaeth fanwl o gyfathrebu mewnol, newid mewn diwylliant ac ymwneud â gweithwyr, yn ogystal â chyfathrebu corfforaethol yn gyffredinol. Mae hi hefyd yn gallu cynghori a chefnogi staff i gyflwyno eu negeseuon ledled y Brifysgol.

### ADRAN CYFRIFIADUREG

Mae **Dr Thomas Jansen** wedi'i benodi'n Uwch-Ddarlithydd yn yr adran. Mae meysydd ymchwil Thomas yn cynnwys hewristeg hapchwilio, yn arbennig algorithmau esblygiadol a systemau imiwnedd artiffisial. Mae'n canolbwyntio ar ddadansoddi hewristeg hapchwilio o'r fath yn ddamcaniaethol i wella ein dealltwriaeth o'u hegwyddorion gweithredol er mwyn llywio sut maent yn cael eu cynllunio a'u cymhwyso.



### IBERS

Mae **Glenda Davies** wedi'i phenodi'n Swyddog Cyfathrebu IBERS. Mae Glenda wedi gweithio mewn amrywiaeth o swyddogaethau cyfathrebu dros 16 mlynedd, yn sector yr amgylchedd, y sector addysg a'r sector gwirfoddol. Wedi'i lleoli yn IBERS a chan weithio'n agos â'r tîm Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus, mae Glenda'n gyfrifol am bob agwedd ar gyfathrebu yn IBERS.





### SEFYDLIAD DAEARYDDIAETH A GWYDDORAU DAEAR

Mae **Dr Cerys Jones** yn ymuno â'r Sefydliad Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear (SDGD) fel Darlithydd Daearyddiaeth trwy gyfrwng y Gymraeg, swydd a gefnogir gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Mae Cerys yn dychwelyd i'r SDGD ar ôl gweithio ar brosiect a gyllidwyd gan yr AHRC yng Nghanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, yn ymchwilio i dywydd eithafol hanesyddol yng Nghymru.

Cafodd **Richard Williams** ei benodi'n ddarlithydd Hydroleg a Deinameg Basn Afonydd. Mae ymchwil Richard yn canolbwyntio ar fonitro a modelu deinameg afonydd. Mae ei ymchwil doethurol yn canolbwyntio ar ddatblygu dynwarediadau rhifiadol o forffoleg afonydd plethedig, gan ddefnyddio set ddata sy'n cofnodi esblygiad yr Afon Rees, Seland Newydd, trwy gyfres o lifogydd.



### YSGOL RHEOLAETH A BUSNES



Mae **Jan Breitsohl** wedi ymuno â'r Ysgol Rheolaeth a Busnes fel Darlithydd Seicoleg Marchnata. Ymunodd Jan â ni o Brifysgol Bangor lle bu'n dysgu Marchnata Ar-lein a Chyfryngau Cymdeithasol a thestun ei PhD oedd rheoli cwynion ar-lein. Mae diddordebau ymchwil presennol Jan yn canolbwyntio ar seicoleg cyfathrebu, holiaduron arbrofol ac ymddygiad defnyddwyr oedrannus ar y rhyngrwyd.

Mae **Tiffany Low** wedi ymuno â ni o Brifysgol Swydd Bedford fel Darlithydd Marchnata. Mae diddordebau ymchwil Tiffany yn canolbwyntio ar frandio moeth, arferion treuliant moesegol, gwerthoedd defnyddwyr a datblygu twristiaeth gynaliadwy, a hefyd ym maes ymreolaeth academaidd a rheoli ymchwil yn gymdeithasol. Mae ei chefndir academaidd yn cynnwys arbenigaethau ym maes cyllid ac economeg ariannol.




# Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i'r aelodau isod o staff a enillodd gadeiriau personol yn ddiweddar:



**Yr Athro Kate Bullen**
Adran Seicoleg



**Yr Athro Henry Lamb**
Sefydliad Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear



**Yr Athro Robert Meyrick**
Yr Ysgol Gelf



**Yr Athro Nick Perdikis**
Ysgol Rheolaeth a Busnes



**Yr Athro Heike Roms**
Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu



**Yr Athro Mark Whitehead**
Sefydliad Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear

# Eisteddfod Ryng-golegol 2013

Prifysgol Aberystwyth oedd yn fuddugol yn yr Eisteddfod Ryng-golegol eleni, a gynhaliwyd yng Nghaerfyrddin ddydd Sadwrn 2 Mawrth.

Teithiodd 170 o fyfyrwyr o Aberystwyth i Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant i gystadlu, cymdeithasu ac ymfalchïo yn eu Cymreictod, ynghyd â myfyrwyr o brifysgolion eraill ledled Cymru.

Bu myfyrwyr o Aberystwyth yn fuddugol mewn cystadlaethau dawnsio disgo, ensemble cerddorol, y ddeuawd ddoniol a'r sgets. Bu beirdd a llenorion Aberystwyth hefyd yn llwyddiannus iawn yn yr adran gwaith cartref – daeth Megan Elenid Lewis yn ail yng nghystadleuaeth y Goron a Ffraid Gwenllian yn drydydd. Llongyfarchiadau mawr i Gruffudd Antur a enillodd Gadair yr Eisteddfod am y drydedd flwyddyn yn olynol.

Prifysgol Aberystwyth hefyd enillodd y Gala Chwaraeon, a gynhelir law yn llaw â'r Eisteddfod. Daeth timau rygbi a phêl rwyd Aberystwyth yn fuddugol.

# University Challenge

Mae tîm o Brifysgol Aberystwyth yn un o'r 28 o dimau sydd wedi cyrraedd rowndiau teledu *University Challenge* eleni.

Yn nhîm Aberystwyth mae dau fyfyriwr ôl-raddedig o IBERS, Daniel Guy ac Ed Bishop-Harper, dau fyfyriwr ôl-raddedig o'r adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol, Simon Thomas a Matthew Campbell, a myfyriwr israddedig o'r adran Hanes a Hanes Cymru, Andrew Gordon.

Ffilmiwyd ymddangosiad cyntaf y tîm ar 17 Chwefror a chaiff ei ddarlledu yn yr haf.


Dyma'r tro cyntaf i Aberystwyth gyrraedd rowndiau teledu'r rhaglen gwis academaidd ers pum mlynedd. Cyrhaeddodd tîm 2007 rownd yr wyth olaf, ond fe'i curwyd gan dîm Prifysgol Warwick a aeth ymlaen i ennill y teitl yn y pen draw.

# Marwolaethau




**Ian Gulley -** 1949 – 2013

Gweithiodd Ian Gulley fel cartograffydd mewn Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear am 25 mlynedd, gan addasu ei sgiliau fel dylunydd i ddatblygiadau mewn mapio cyfrifiadurol i gynhyrchu miloedd o fapiau hardd a diagramau sydd wedi darlunio monograffau ymchwil, gwerslyfrau ac erthyglau gwyddonol ac sydd wedi cyrraedd pedwar ban byd. Yn grefftwr rhadlon, preifat a diwyd, roedd Ian yn gydweithiwr gwerthfawr a bydd colled ar ei ôl, nid yn unig ymhlith y rhai oedd yn parchu ei waith, ond hefyd gan y rheiny a rannodd ei angerdd am gerddoriaeth ac sy'n cofio ei rôl yn sefydlu Clwb Gwerin Aber.



**Richard Iorwerth Isaac -** 1918 – 2013

Ganwyd Richard Iorwerth Isaac yn 1918, ac ar wahân i gyfnod yn gwasanaethau yn y rhyfel, treuliodd ei fywyd i gyd yn Aberystwyth. Ar ôl graddio mewn Swoleg yn Aberystwyth, gwnaeth Richard ddefnydd da o'r hyn a ddysgodd yn ystod yr Ail Ryfel Byd pan ymunodd â Labordy Maes Malaria Corfflu Meddygol Brenhinol y Fyddin yn Nigeria, uned a oedd yn gyfrifol am ddiogelu milwyr ac awyrenwyr rhag malaria. Yn 1945 dychwelodd Richard i Aberystwyth a bu'n dechnegydd ymchwil yn Uned Ymchwil Iechyd Anifeiliaid y Brifysgol. Ymddeolodd o'i swydd yn brif dechnegydd ym mis Hydref 1981. Bydd teulu a chyfeillion Richard yn gweld ei golli'n fawr iawn.



**Rowland Maddock -** 1937-2012

Graddiodd Rowland Maddock, a oedd yn hanu o dde Cymru, o Brifysgol Cymru a bu'n dysgu Economeg yn Aberystwyth, Keele a Chaerhirfryn cyn symud i'r Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol yn Aberystwyth, lle'r oedd yn ddarlithydd ac yn uwch ddarlithydd. Roedd yn arbenigwr ar agweddau economaidd ar Gysylltiadau Rhyngwladol a materion amgylcheddol byd-eang. Ar ôl ymddeol o'r Brifysgol bu'n arholwr allanol i fodiwlau cyfrwng Cymraeg yr Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol. Mae gan ei gyn gydweithwyr yn y Brifysgol atgofion melys iawn amdano fel cydweithiwr gwych a dyn hynod garedig a hynaws.

# Ymddeoliad

## SAESNEG AC YSGRIFENNU CREADIGOL



Mae'r Uwch-weinyddwraig, **Carol Marshall**, wedi ymddeol ar ôl un mlynedd ar bymtheg yn y Brifysgol. Roedd Carol yn ymroddedig, trwyadl, effeithlon a digynnwrf, a bydd colled fawr ar ei hôl. Rydym yn dymuno pob hapusrwydd iddi i'r dyfodol, lle bydd hi'n siŵr o fodloni ei hawydd i deithio.

# Arolwg Darllenwyr

NEWYDDION Aber

Mae NEWYDDION Aber yn ymwneud â staff, ar gyfer staff a gan staff. Rydym am iddo fod mor ffres, yn llawn gwybodaeth a diddorol â sy'n bosib. Rydym wrthi'n cynnal arolwg darllenwyr i gael eich barn am yr hyn rydym yn ei wneud yn dda a'r meysydd lle gallem wella. Ewch i www.survey.bris.ac.uk/aber/newyddionaber.

Cwblhewch yr arolwg i fod â chyfle i ennill £ 25 credyd ar eich Cerdyn Aber i'w ddefnyddio yn unrhyw un o Gaffis a Bwytai y Brifysgol.

DIGWYDDIADUR

ABERYSTWYTH ARTS CENTRE

## Calendar Girls

**Mer 8 Mai i Sul 12 Mai**

Mae Cwmni'r Wardens, sy'n adnabyddus am eu pantomeim blynyddol, yn cyflwyno fersiwn i'r llwyfan o'r ffilm boblogaidd yn adrodd hanes criw o aelodau dewr Sefydliad y Merched sy'n penderfynu tynnu eu dillad er budd achos da! Pan mae eu byd yn cael ei ddifrodi gan gancr, mae criw o ferched eithriadol yn sbarduno ffenomenon byd-eang trwy ddarbwyllo ei gilydd i greu calendr elusennol - gyda gwahaniaeth!

Mae *Calendar Girls* yn seiliedig ar stori wir galonogol ac ysbrydoledig. Felly archebwch eich tocynnau 'nawr i helpu'r Wardens i godi arian ar gyfer ymchwil cancr - rhoddir canran o bris pob tocyn a werthir at yr elusen - a mwynhewch sioe wych ar yr un pryd!

Mae'r sioe hon yn cynnwys peth noethni.
A byns.

## Blood Brothers – Y Ddrama

**Iau 16 Mai i Sad 18 Mai**

Fel rhan o'n dathliadau 40 mlynedd, mae Theatr Ieuenctid y Ganolfan yn cyflwyno drama Willy Russell - yn seiliedig ar y sioe gerdd hynod lwyddiannus a phoblogaidd.

Yn dilyn thema y nofela o 1844 '*The Corsican Brothers*', mae'r stori yn fersiwn gyfoes o'r cwestiwn 'natur yn erbyn magwraeth', yn sôn am efeilliaid a gafodd eu gwahanu ar enedigaeth. Mae eu magwraeth gwbl wahanol, a stori'r hyn sy'n digwydd iddynt, yn gyflym, yn dreiddgar ac yn y pendraw'n drasig ….

www.aberystwyth artscentre.co.uk




ARDDANGOSFEYDD YR YSGOL GELF

**Dydd Llun 15 Ebrill– dydd Gwener 10 Mai**

Orielau 1 a 2

## Frederike s'Jacob: Paentiadau a Darluniau

Gwaith mynegiadol gan artist o'r Iseldiroedd sy'n byw ac yn gweithio yn Sir Benfro

Oriel 3

## Gweithiau gan Graham Sutherland

o Gasgliadau'r Ysgol Gelf – arddangosfa wedi'i churadu gan Elaine Cabuts

Arddangosfa fach o weithiau o'r Casgliadau, na chawsant eu dangos gyda'i gilydd erioed o'r blaen, gan gynnwys darlun a deuddeg print gan Sutherland.



*Frederike s'Jacob – di-deitl, cyfryngau cymysg ar bapur, 2013*



*Graham Sutherland - 'The Black Rabbit', ysgythriad, 1923. © Ystad Graham Sutherland*

## Lludw folcanig, lâ a Mwd: hel cliwiau am hinsawdd y gorffennol

DARLITH WALTER IDRIS JONES

**6pm, dydd Iau 25 Ebrill 2013**

**Y Brif Neuadd, Adeilad Gwleidyddiaeth Ryngwladol**



Yr Athro Siwan Davies, Athro Daearyddiaeth Ffisegol ym Mhrifysgol Abertawe, fydd yn traddodi darlith Walter Idris Jones eleni, Lludw folcanig, lâ a Mwd: hel cliwiau am hinsawdd y gorffennol.

Traddodir y ddarlith yn Gymraeg a bydd offer cyfieithu ar y pryd ar gael. Bydd derbyniad diodydd am ddim yn syth ar ôl y ddarlith.

Mae mynediad am ddim ac mae croeso i bawb.